Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei argraffu i gywiro gwallau yn O.S. 2024/698 (Cy. 96) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1002 (Cy. 171)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion) (Cymru) 2024

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) ("Deddf 1998") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau ar gyfer derbyn i ysgolion. Yn benodol, mae adran 89B o Ran 3 o Ddeddf 1998 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru lunio cynllun cymhwysol i gydlynu'r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn ei ardal ("cynlluniau cymhwysol").

Mae Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/698 (Cy. 96)) ("Rheoliadau 2024") yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chynlluniau cymhwysol. Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau i reoliadau 2(1) a 7(3)(a) o Reoliadau 2024.

Mewnosododd Rheoliadau 2024 baragraff newydd 5A yn Atodlen 2 i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") mewn perthynas â chynlluniau cymhwysol. Mae rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn yn rhoi is-baragraff (2) newydd ym mharagraff 5A o Atodlen 2 i Reoliadau 2011. Mae'r is-baragraff (2) newydd yn cynnwys nifer o gywiriadau.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1002 (Cy. 171)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Hydref 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *9 Hydref 2024* |
| *Yn dod i rym* | *4 Tachwedd 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 89B(1), 89C(2) a 92 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 1998 p. 31; gweler adran 90ZA am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations". Mewnosodwyd adran 89B gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), adran 48 ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25), Atodlen 1, paragraffau 53, 59(1) a (2), ac O.S. 2010/1158; mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mewnosodwyd adran 89C gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), adran 48 ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25), Atodlen 1, paragraffau 53, 60(1), (2) a (3), Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1), Atodlen 5, paragraff 4(1) a (5) ac O.S. 2010/1158; mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Amnewidiwyd adran 92 gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 4, paragraff 7 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1158.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), Atodlen 11, paragraff 30.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Tachwedd 2024.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "cynllun Gweinidogion Cymru", yn lle "is-adran" rhodder "adran", a

(b) hepgorer y diffiniad o "diwrnod gwaith".

(3) Yn rheoliad 7(3)(a), yn lle "578(1)" rhodder "578".

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011**

**3.** Yn Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011(**2**), yn lle is-baragraff (2) o baragraff 5A o Atodlen 2 rhodder—

"(2) Yn y paragraff hwn—

mae i "cais" ("*application*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2024;

mae i "cylch derbyn arferol" ("*normal admission round*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(2) o Reoliadau 2024;

ystyr "y cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn yr awdurdod lleol" ("*the scheme for co-ordinating admission arrangements of the local authority*") yw—

(a) cynllun a fabwysiedir gan awdurdod lleol yn unol â rheoliad 4(1) o Reoliadau 2024, neu

(b) cynllun a osodir ar yr awdurdod lleol gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 89B(2) o Ddeddf 1998;

mae i "ffurflen gais gyffredin" ("*common application form*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2024."

---

(**1**) O.S. 2024/698 (Cy. 96).

(**2**) O.S. 2011/1944 (Cy. 211), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/698 (Cy. 96); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Lynne Neagle*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
7 Hydref 2024